| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 148 – Perfformio Golygfa Blwyddyn 6 ac iau |
| | **Detholiad o 'Prawf Elgan Jones' Geinor Styles.** |

ELGAN: Roedd hi'n dywyll y noson honno. Troes i fynd a dyna lle roedd Higgins, yn anelu syth amdanai, roedd ganddo wn. Roedd rhaid i mi redeg! Yr unig le i fynd oedd y tŷ mawr. Byddwn gallu dianc trwy'r gerddi. Wrth i mi fynd rownd i ffrynt y tŷ weles i lwyth o bobl crand yn cyrraedd, felly es i rownd cefn y tŷ. Weles i drws, rhedes i mewn, ac yna roeddwn i mewn cegin enfawr. Gyda'r holl fwyd yma. Dwi erioed 'di gweld gymaint o fwyd. Yn sydyn agorodd y drws, weles i'r forwyn ac mi guddiais i o dan y bwrdd.

YN SYDYN DAW ELIZABETH I MEWN I'R GEGIN

HIGGINS: Wel ydy e gen ti?

ELIZABETH: Be wyt ti'n feddwl? Roedd y snoben Lady Isabella Lennox wedi mynd i ferlota. Neb yn ei 'stafell.

MAE'N DANGOS Y BROETS IDDO.

HIGGINS: Perffaith. Sgwn i faint o arian gawn ni am hyn?

ELIZABETH: Arhosa, Mae pethau wedi newid. Mae rhywun wedi galw'r heddlu.

HIGGINS: Yr Heddlu, be' wnawn ni nawr?

ELIZABETH: Dwi ddim yn gwybod ond mae un peth yn sicr, mae'n rhaid i ni gael e mas o'r ty.

HIGGINS: Wel, a i ag e?

ELIZABETH: Allet ti ddim, mae Mr Talbot wedi rhoi gorchymyn i neb adael nes i bawb gael eu archwilio.

HIGGINS: Pawb? Wel, dwi ddim moen e?

ELIZABETH: Na fi!

HIGGINS: On dy syniad di oedd e i ddwyn e.

ELIZABETH: ‘Drycha ‘ma rhaid i ni gael gwared ag e.

CLOCH.

HIGGINS: Rhaid i ni guddio hi fan hyn te.

ELIZABETH: Na!

HIGGINS: Pam?

ELIZABETH: Mae’r heddlu wedi dechrau archwilio bob ‘stafell yn y ty!

MAE’N CEISIO CUDDIO HI MEWN LLEFYDD GWAHANOL.

HIGGINS: ‘Nai guddio fe yn y gacen.

ELIZABETH: Na.

HIGGINS: Nai hwpo fe lan y ffowlyn?

ELIZABETH: Na!

HIGGINS: Dan y ford te?

MAE ELIZABETH A HIGGINS YN GWELD ELGAN O DAN Y FORD.

ELIZABETH: Pwy wyt ti te?

MAE HIGGINS YN PWYNTIO’R GWN AT ELGAN

ELGAN: ‘Drycha dwi dim ond yn edrych am fwyd.

HIGGINS: Potsio ife?

ELGAN: Dim ond yn edrych am fwyd i fy nheulu.

HIGGINS: Mae yn erbyn y gyfraith i botsio, allai arestio ti nawr.

ELGAN: Dwi'n gw'bod, ond plis byddwch yn drugarog!

HIGGINS: Trugarog, dwi mynd i gael fy ngwobr!

MAE ELIZABETH YN GAFAEL YN HIGGINS

ELIZABETH: Arhosa eiliad, paid bod yn fyrbwyll!

MAE ELIZABETH YN TROI NÔL AT ELGAN

ELIZABETH: Esgusoda fy ffrind, does ganddo dim manyrs o gwbl. Felly, ti eisiau bwyd ife?

ELGAN: Ydw dwi bron a llwgu.

ELIZABETH: Wel, wnawn ni roi bwyd i ti. Ond ddim fan 'yn. Ar ochr pella yr ystad, ochr draw i'r goedwig, ma' 'na wal yn ffinio yr ystad. Os arhoswch chi ger y wal yn y goedwig pan yw'r haul yn machlud, wnawn ni ddod a bwyd i ti, digon o fwyd i ti a dy deulu i f'yta am fisoedd. Bydd dim angen potsio rhagor.

ELGAN: Ti'n addo?

ELIZABETH: Wrth gwrs.

MAE HIGGINS YN YSGWYD EI BEN. MAE ELGAN YN TROI I FYND

ELIZABETH: Arhosa eiliad dwi heb gwpla 'to. Mae rhaid i ti wneud rhywbeth i ni.

ELGAN: Beth?

ELIZABETH: Dweud dim am be glywest ti heddiw yn y gegin. Ti'n deall?

ELGAN: Glywais i dim byd.

ELIZABETH: Da iawn.

WRTH I ELIZABETH EGLURO'R CYNLLUN I ELGAN.

MAE HIGGINS YN RHOI Y BROETS I MEWN I BOCED ELGAN

ELGAN: Gadewais i’r ty. Er ‘on i’n gwybod bod y forwyn a Higgins yn anonest, ‘on i angen y bwyd. Yr unig beth ar fy meddwl oedd y bwyd y byddwn yn ei fwyta y noson honno.Yr unig beth oedd angen i mi wneud oedd cyrraedd y wal erbyn 7 o’r gloch a pheidio â chael fy nal. Pan gyrhaeddais wal y ffin, roedd yn oeri. Roedd hi mor oer, chwipiodd y gwynt fy wyneb a thynnais fy siaced yn agosach at fy nghorff. Wrth i mi wneud hynny, aeth fy llaw i mewn i’m poced, ac yna roedd darn o fwslin. Agorais y defnydd a gweld tlws hyfryd. Roedd y forwyn a Higgins wedi nhwyllo i. Dylwn ei ddychwelyd ar unwaith. Ond wedyn meddyliais, gallwn werthu hwn a chael arian i brynu bwyd i fy nheulu. Ond nid fy un i ydoedd. Roedd angen i mi ei roi yn ôl, ond pwy fyddai'n fy nghredu? Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud am y gorau. Yn sydyn clywais leisiau yn dod yn agos…

DAW HIGGINS A ELIZABETH I MEWN GYDA’R GWN WRTH I ELGAN GYSGU.

MAE’R DDAU YN MYND ATI I EDRYCH AM ELGAN.

MAE ELIZABETH YN FFEINDIO ELGAN YN CYSGU AC YN EDRYCH AM Y FROETS.

MAE ELGAN YN DEFFRO.

HIGGINS: Ble mae’r broets?

ELIZABETH: Rho’r broets i ni!

ELGAN: Lle ma’r bwyd?

HIGGINS: Paid a bod mor dwp. Wyt ti wir yn credu byddwn ni wedi rhoi bwyd i ti?

MAE ELGAN YN CEISIO RHEDEG I FFWRDD.

ELIZABETH: Higgins, cer ar ei ôl e.

HIGGINS AC ELIZABETH YN RHEDEG AR OL ELGAN.